HSC(6) -18-22 Papur 5 / Paper 5

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Penodi Cadeirydd

## Dyddiad Cau: 16:00, 25 Ebrill 2022

The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**

Tudalen

**Gwneud cais** **2-5**

**Atodiad A: Rôl y Cadeirydd** **6-7**

**Atodiad B:**
**Rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** **11-12**

**Atodiad C: Y broses ddethol** **13-14**

## Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-c80f365cc7a1/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

**Datganiad Personol**

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi yn y broses o gyflawni amcan penodol. Gallai enghreifftiau a ddarperir fod yn enghreifftiau o bethau rydych wedi'u gwneud yn eich bywyd personol ac nid oes angen iddynt o reidrwydd fod yn gysylltiedig â swydd neu rôl a wnaethoch. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraff i bob maen prawf.

Byddwch cystal â chyfyngu'ch datganiad personol i **uchafswm o 1000 o eiriau**. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

**CV**

Ni ddylai'ch CV fod yn fwy na **3 tudalen**. Dylai gynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

**Cyfeiriadau**
Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 16:00, 25 Ebrill 2022 |
| Llunio rhestr fer: | w/d 2 Mai 2022 |
| Cyfweliadau: | w/d 23 Mai 2022 |
| Cychwyn yn y swydd: | 1 Hydref 2022 |

**Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Hyderus o ran Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae’n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â’r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Cysylltiadau:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: PublicAppointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, cysylltwch â:

Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru
E-bost: pstodgforhsscenhswales@gov.wales

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Trish Mills, Ysgrifennydd y Bwrdd, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ffôn: [redacted]
E-bost: [redacted]

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

**Atodiad A**

## Penodi Cadeirydd i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

### Disgrifiad o'r rôl

Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru.

Bydd Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:-

- **Yn datblygu Gweledigaeth Strategol** ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'i gwasanaethau, gan nodi a gwireddu'r sgiliau a'r potensial cynhenid o fewn y sefydliad i ddatblygu gwasanaeth arloesol o'r radd flaenaf;

- **Yn cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws cyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth, yn fewnol drwy'r Ymddiriedolaeth, ac yn allanol drwy ei chysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn genedlaethol;

- **Sicrhau bod y Bwrdd yn cyfleu ac yn gwireddu** nodau strategol yr Ymddiriedolaeth ar y cyd drwy gynlluniau cyflawni a threfniadau llywodraethu priodol;

- **Yn gyfrifol am gynnal** yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd cyhoeddus, gan wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;

- **Yn atebol am berfformiad y Bwrdd** ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol drwy gytuno ar gynllun tymor canolig integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, a'r gwerthusiad blynyddol o'r cyraeddiadau yn erbyn y cynllun yn gyhoeddus gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

- **Yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol** am bob un o'i gyfrifoldebau;

- **Yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid**, yn arbennig Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid gofal cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu;

- **Yn rhoi sicrwydd a threfn lywodraethu ar gyfer gofalu'n briodol am arian**

**cyhoeddus ac adnoddau eraill** y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;

- **Yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol,** yn unol â'r fframwaith a'r safonau a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru;

- **Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

**Manyleb y Person**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am rai sgiliau penodol ar gyfer y penodiad hwn a bydd y Cadeirydd yn dangos y rhinweddau canlynol:

<u>Hanfodol</u>

- Cyfathrebwr ardderchog gyda sgiliau arwain strategol cryf, a record sylweddol o gyflawni ar y lefelau uchaf yn y sectorau cyhoeddus neu breifat;
- Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth ar systemau a gweithio gyda Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Llywodraeth Cymru, grwpiau cymunedol, cleifion a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu ac ysgogi'r weledigaeth strategol honno.
- Y gallu i arwain, ysbrydoli ac ysgogi Bwrdd sefydliad cenedlaethol mawr, gan ddarparu llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar lefel Bwrdd, a datblygu perfformiad gweithredol a pherfformiad y Bwrdd
- Dealltwriaeth ragorol o lywodraethu a'r gallu i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio'n gydlynol ac yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau tryloyw.
- Dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt.
- Arddel a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf ar lefel Bwrdd yn unol â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd mabwysiedig yr Ymddiriedolaeth.
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth.
- Y gallu i ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif-ffrydio'r Gymraeg.

<u>Dymunol</u>

- Deall materion a blaenoriaethau iechyd mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r system iechyd ehangach yng Nghymru.
- Yn gyfarwydd â newid sefydliadol trawsnewidiol ac atebion digidol yn y sector cyhoeddus neu breifat.
- Dealltwriaeth o reoli risg, a systemau rheolaeth a sicrwydd mewnol.

**Y Gymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn ofynnol ar gyfer y penodiad hwn. Er hynny, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith, a dangos

arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru. Y lefel sgiliau sy'n ddymunol yw:

Deall = 2 - Gall ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd.
Darllen = 2 - Gall ddarllen deunydd syml ar bynciau pob dydd.
Siarad = 3 - Gall gynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith.
Ysgrifennu = 1 - Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth cenedlaethol, a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ledled Cymru ac yn rhithwir ar Teams. Wrth i ni ddychwelyd i gynnal cyfarfodydd Bwrdd a sesiynau datblygu'r Bwrdd wyneb yn wyneb, mae'r rhain yn debygol o fod yng Nghaerdydd a Llanelwy yn bennaf, ond cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd hefyd i ymgysylltu â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid. |
| Ymrwymiad Amser: | Oddeutu 14.5 ddiwrnod y mis |
| Hyd y swydd: | Penodiad cychwynnol o hyd at 4 blynedd, i'w benderfynu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Tâl: | £43,326 y flwyddyn ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill. |

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais**

Mae rheoliad 11 (anghymhwysiad i benodi yn gadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol) yn darparu, yn ddarostyngedig i reoliad 12 (sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag atal anghymhwysiad) o Reoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (fel y'i diwygiwyd), y bydd person yn anghymwys i gael ei benodi'n gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru am restr o resymau penodedig.

Yn y cyd-destun penodol hwn, byddai person yn anghymwys i'w benodi'n gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am y rhesymau canlynol:

(a) fe'i cafwyd yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn ddedfryd carchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;

(b) mae'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad interim, neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled interim o dan Atodlen 4ZB i Ddeddf Ansolfedd 1986;

(c) mae wedi ei ddiswyddo, am reswm ac eithrio dileu swydd, o unrhyw gyflogaeth â thâl gyda chorff gwasanaeth iechyd, er na chaiff person ei drin fel pe bai wedi bod mewn cyflogaeth am dâl os yw wedi gwneud un o'r rolau canlynol yn unig -

  (i) yn achos ymddiriedolaeth sefydledig y GIG, yn gadeirydd, yn llywodraethwr

neu'n gyfarwyddwr anweithredol yr ymddiriedolaeth;

(ii) yn achos grŵp comisiynu clinigol, yn gadeirydd neu'n aelod o gorff llywodraethu'r grŵp; neu
(iii) yn achos unrhyw gorff gwasanaeth iechyd arall, yn gadeirydd, yn aelod neu'n gyfarwyddwr y corff gwasanaeth iechyd dan sylw;

(d) mae'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod, cyfarwyddwr neu lywodraethwr corff gwasanaeth iechyd, ac eithrio grŵp comisiynu clinigol, ar y sail —

(i) nad oedd er budd y corff gwasanaeth iechyd na'r gwasanaeth iechyd ei fod yn parhau i ddal y swydd,
(ii) diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd,
(iii) peidio â datgelu buddiant ariannol, neu
(iv) wedi camymddwyn neu fethu â chyflawni'i ddyletswyddau;

(e) mae'n berson sydd wedi'i ddiswyddo fel cadeirydd neu aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol;

(f) mae'n gadeirydd, yn aelod, yn gyfarwyddwr neu'n gyflogai mewn corff gwasanaeth iechyd ac eithrio grŵp comisiynu clinigol neu ymddiriedolaeth sefydledig y GIG, er bod yr eithriadau canlynol yn berthnasol i'r ddarpariaeth hon:

(i) ni chaiff person ei anghymhwyso o dan is-baragraff (f) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol o ymddiriedolaeth y GIG y cyfeirir ati ym mharagraff 3(1)(d) o Atodlen 2 i'r Ddeddf oherwydd ei gyflogaeth gyda chorff gwasanaeth iechyd
(ii) ni chaiff person ei anghymhwyso o dan is-baragraff (f) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol o ymddiriedolaeth y GIG oherwydd ei fod yn gadeirydd neu'n aelod nad yw'n swyddog o'r Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, Awdurdod Gwybodaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Awdurdod Logisteg y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.
(iii) ni chaiff person ei anghymhwyso o dan is-baragraff (f) rhag bod yn gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad y'i sefydlwyd a'i ddyddiad gweithredol yn rhinwedd bod yn gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth arall y GIG;

(g) mae'n berson sy'n gadeirydd neu'n aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol, neu'n gyflogedig gan grŵp o'r fath;

(h) mae'n gadeirydd, yn gyfarwyddwr neu'n gyflogai i ymddiriedolaeth sefydledig y GIG, er na chaiff person ei anghymhwyso o dan baragraff (h) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth y GIG y cyfeirir ati ym mharagraff 3(1)(d) o Atodlen 2 i'r Ddeddf oherwydd ei gyflogaeth gyda chorff gwasanaeth iechyd;
(i) mae —
(i) yn ymgymryd â gwasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol, neu'n eu darparu, o dan Ran I o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977,
(ii) yn bartner mewn partneriaeth, yn berchennog cyfreithiol a buddiol ar gyfranddaliadau mewn cwmni, neu'n gyfarwyddwr corff corfforaethol sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol o dan Ran I o'r Ddeddf honno, neu

(iii) yn gyflogai i unrhyw un o'r uchod;

(j) mae wedi cael gwared ar ei enw, drwy gyfarwyddyd o dan adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, o unrhyw restr a baratowyd o dan Ran II o'r Ddeddf honno ac nad yw wedi cynnwys ei enw wedyn ar restr o'r fath neu restr a baratowyd yn unol ag adran 28X o'r Ddeddf honno; neu

(k) mae'n gadeirydd neu aelod arall o'r rheoleiddiwr annibynnol Monitor (sydd bellach yn rhan o NHS Improvement).

Os bydd angen eglurhad pellach ar ymgeiswyr ynglŷn â'r meini prawf cymhwysedd uchod, dylent gysylltu â: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru gan ddarparu'r cwestiwn y maent angen ateb iddo.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru, o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.
Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Ni fydd unigolyn fel arfer yn gwasanaethu ar yr un pryd fel swyddog anweithredol aelod ar Fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bydd y llythyr hwnnw yn cadarnhau'r telerau penodi. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses o wirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael. Bydd hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu gwrandawiad cyn penodi yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Senedd Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth isod.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Diwydrwydd Dyladwy**

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo i gyrraedd y cam cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar y

rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

**Atodiad B**

## Rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fod yn un o'r gwasanaethau ambiwlans mwyaf datblygedig yn glinigol yn y byd. Er bod cynnydd cadarn wedi'i wneud, mae cymdeithas yn parhau i newid ac mae dyfodiad pandemig COVID-19 wedi cyflymu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddechrau ar gam nesaf ei thaith wrth iddi geisio manteisio ar y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Gan ddarparu gwasanaethau i'r tair miliwn a mwy o bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, gan gynnwys y miloedd lawer sy'n ymweld â'r wlad bob blwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dod yn un o hanfodion GIG Cymru, gan weithio i drawsnewid ei hun yn wasanaeth a arweinir yn glinigol sy'n cefnogi ac yn gweithio ar draws y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd.

Gan weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid, ein huchelgais yn awr yw newid rôl yr Ymddiriedolaeth yn sylfaenol, gan weithredu nid yn unig fel darparwr gofal brys ac argyfwng allweddol ledled Cymru, ond hefyd gweithredu fel porth i ofal ar gyfer bobl Cymru, gan ddefnyddio gwasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth fel pwynt cyswllt cyntaf i'r rhai y mae angen cymorth clinigol, cyngor a thriniaeth arnynt ar frys, y tu mewn a'r tu allan i oriau.

Bydd y newid hwn yn arwain at leihad yn nifer y cleifion sy'n cael eu cludo i'r ysbyty a chynnydd yn y gofal a ddarperir yn y cartref, neu'n agosach at y cartref, gan amrywiaeth o ymarferwyr arbenigol sydd ag amrywiaeth o sgiliau clinigol.

Mae goruchwylio datblygiad parhaus y gwasanaeth ambiwlans a manteisio ar ei botensial i gynyddu ei rôl yn GIG Cymru yn un sy'n cyflwyno heriau a chyfleoedd.

Mae llawer i'w wneud o hyd i angori a chyfnerthu perfformiad yng ngwasanaeth 999 craidd y sefydliad yn benodol, gan weithio gyda byrddau iechyd partner i ddatrys heriau strwythurol yn y system, heb golli golwg ar yr angen i newid yn sylweddol y ffordd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol os yw'r gwasanaeth am barhau i ddiwallu'r galw cynyddol a disgwyliadau'r cyhoedd.

I helpu i wireddu'r uchelgais hwn a chyflymu trawsnewidiad y sefydliad, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, o gefndiroedd mor amrywiol â phosibl i'n helpu i deilwra ein cynnig

i’n poblogaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn arbennig o awyddus i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar ei Bwrdd ac i ddenu aelodau o wahanol gefndiroedd ethnig. Mae'r cyfraniad y gall Cyfarwyddwyr Anweithredol ei wneud at yr Ymddiriedolaeth trwy dynnu ar eu profiadau eu hunain yn arbennig o werthfawr.

Rôl y Bwrdd yw canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:


**Strategaeth**: Datblygu strategaeth, gweledigaeth a diben yr Ymddiriedaeth. Nodi blaenoriaethau, sefydlu nodau ac amcanion, dod o hyd i adnoddau, a dyrannu arian i gefnogi'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud ynghylch cynllunio strategol.

**Ymgorffori Ymddygiad Moesegol**: Mae'r Bwrdd yn llunio diwylliant yr Ymddiriedolaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys yn y ffordd y mae'n ymgysylltu â staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid, y ffordd y mae'n rheoli ei hagenda, yn ôl natur y ddadl yn y Bwrdd a'r pwyslais cymharol a roddir ar feini prawf perfformiad gwahanol, yn ôl amlygrwydd ei aelodau yn y sefydliad, ac yn ôl ble mae'n dewis buddsoddi amser ac adnoddau. Rhaid i aelodau'r Bwrdd fodloni'r safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a gonestrwydd.

**Rheoli risg**: Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli risg a sicrhau bod system gadarn o reolaethau mewnol ar waith a'u bod yn ymwybodol o’r camau lliniaru sydd ar waith ar gyfer y prif risgiau i gyflawni'r strategaeth.

**Cael Sicrwydd ynghylch Cyflawni Strategaeth a Pherfformiad**: Dwyn i gyfrif, a chael ei ddwyn i gyfrif, am gyflawni'r strategaeth yn unol â'r fframweithiau strategol a fframweithiau perfformiad a ddatblygwyd gan y Bwrdd.

**Atodiad C**




## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys (aelodau ychwanegol o'r panel i'w cadarnhau)

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel yn sifftio'r ceisiadau yn ystod wythnos w/d 2 Mai 2022 a chynhelir cyfweliadau yn ystod w/d 23 Mai 2022. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau yn rhithiol.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni’r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw’r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio. Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â’r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a’r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi’n Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a fydd hefyd yn cadarnhau’r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

## Gwrandawiad cyn penodi

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael ei gwahodd i fynychu gwrandawiad gan un o Bwyllgorau Senedd Cymru.

Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a chadarnhau bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus*. Gall y gwaith craffu hwn gynnwys y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ac yn ei adolygu. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawiadau cyn penodi yn gyhoeddus a bydd y pwyllgor dethol yn clywed tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Cynhelir y gwrandawiadau cyhoeddus hyn cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei

chynnal.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid ymgymryd â gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis y Gweinidog o ymgeisydd.

**Ymholiadau**
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

**Os nad ydych yn hollol fodlon**
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.
Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.